# COFNODION CYFARFOD PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU AR BWNC 1 A GYNHALIWYD YN HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR – Y SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB, DDYDD LLUN, 18 TACHWEDD 2024 AM 11.00

## Presennol

Y Cynghorydd A Ulberini-Williams – y Cadeirydd

| | |
|---|---|
| HJ David | AJ Williams |

## Presennol yn Rhithwir

| | | | |
|---|---|---|---|
| H Griffiths | D M Hughes | J Llewellyn-Hopkins | T Thomas |

## Ymddiheuriadau am Absenoldeb

JPD Blundell, RJ Collins, I M Spiller ac E Winstanley

Angela Clarke – Cynrychiolydd Cofrestredig yr Eglwys yng Nghymru

## Gwahoddedigion / Cynrychiolwyr Cofrestredig:

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Martyn Jones | Aelod o'r Cabinet dros Addysg a Gwasanaethau Ieuenctid |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg, y Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc |
| Mark Lewis | Rheolwr Grŵp – Gweithio Integredig |
| Megan Apsee | Rheolwr Dros Dro Tim Ymgysylltu ag Addysg |
| Gail Biggs | Rheolwr Grŵp, Cefnogi Dysgwyr |
| Rhian Davies | Swyddog Lles Addysg |
| Jonathan Lewis | Pennaeth Ysgol Gynradd Coety |
| Iwan Jones | Pennaeth Ysgol Gyfun Llangynwyd |
| Darren Jones | Prif Reolwr Gwella – Consortiwm Canolbarth y De |

## Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Lucy Beard | Swyddog Craffu |
| Stephen Griffiths | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |

Datganiadau o Fuddiannau

Y Cynghorydd Amanda Williams - Personol - Eitem 4, Cadeirydd y Llywodraethwyr yn Ysgol Gynradd Coety
Y Cynghorydd Tim Thomas - Personol - Eitem 4, Rhiant Lywodraethwr yn Ysgol Gyfun Llangynwyd

## 58. Cymeradwyo'r Cofnodion

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Penderfynwyd: Cymeradwyo cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu 1, dyddiedig 16 Medi 2024, fel cofnod gwir a chywir. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 18 Tachwedd 2024 |

## 59. Presenoldeb Disgyblion

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Penderfynwyd: Yn dilyn ystyried yr adroddiad a thrafod yn fanwl gydag Aelod y Cabinet, y Swyddogion a'r Gwahoddedigion, gwnaeth y Pwyllgor yr Argymhellion canlynol:<br><br>1. Bu'r Aelodau'n trafod dulliau anghyson ysgolion yn y fwrdeistref sirol o ymdrin ag absenoldeb awdurdodedig ac anawdurdodedig disgyblion yn ystod y tymor ac nad oedd Fframwaith Presenoldeb Cymru Gyfan yn caniatáu i awdurdodau lleol osod polisi cyffredinol ar draws pob ysgol, gan dynnu sylw at y ffaith fod y Fframwaith yn 12 mlwydd oed.<br><br>a. **Argymhellodd** y Pwyllgor fod yr Awdurdod yn edrych i weld a oedd Llywodraeth Cymru yn bwriadu diweddaru ei Fframwaith Presenoldeb a chost rhybuddion cosb benodedig.<br><br>b. **Argymhellodd** y Pwyllgor hefyd gynnal ymarferiad i gael gwybod beth oedd y dull a ddefnyddid gan ysgolion mewn awdurdodau lleol eraill, er mwyn deall a oedd un dull cyson o fewn yr awdurdodau hynny.<br><br>2. Bu'r aelodau'n trafod i ba raddau yr oedd iechyd meddwl yn ffactor oedd yn cyfrannu at bresenoldeb gwael mewn ysgolion ac esboniodd Swyddogion sut yr oeddent yn gweithio gyda gweithwyr iechyd proffesiynol, gan ddefnyddio Fframwaith NEST Llywodraeth Cymru, sy'n ceisio sicrhau dull system gyfan ar gyfer datblygu iechyd meddwl, lles a chefnogaeth. **Argymhellodd** y Pwyllgor y dylid cysylltu â Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg i gael eu barn ynghylch yr amrywiaeth o broblemau neu resymau dros absenoldeb disgyblion gan gynnwys dadansoddiad o'r wybodaeth hon ar gyfer grwpiau o ddysgwyr â nodweddion / cefndiroedd / |

| | |
|---|---|
| | amgylchiadau neilltuol e.e. plant oedd â phrofiad o ofal.<br><br>**Gwybodaeth Ychwanegol:**<br><br>Yn dilyn ystyried a thrafod yr adroddiad yn fanwl gydag Aelod y Cabinet, y Swyddogion a'r Gwahoddedigion, gwnaeth y Pwyllgor y ceisiadau canlynol am wybodaeth:<br><br>3. Bu'r aelodau'n trafod y rhesymau cymhleth dros absenoldeb disgyblion a'i bod yn bwysig gweithio gyda rhieni ar anghenion unigolion, gan gydnabod nad oedd un ateb oedd yn addas i bawb. Mynegodd y Pwyllgor ei gefnogaeth i waith y Gwasanaeth Lles Addysg a **gofynnodd** am ragor o wybodaeth er mwyn deall ymhellach y gwaith yr oeddent yn ei wneud, gan gynnwys faint o Swyddogion a ddefnyddiwyd i gefnogi a rhyngweithio â theuluoedd ac unrhyw astudiaethau achos dienw y gellid eu darparu.<br><br>4. Gan gyfeirio at Dabl 1 ar dudalen 12 o becyn yr agenda, yn ymwneud â phresenoldeb disgyblion yn ystod y cyfnod 2018-2019 i 2023-2024, holodd yr Aelodau faint o'r ganran presenoldeb oedd ar gyfer absenoldeb awdurdodedig neu anawdurdodedig a faint oedd yn gysylltiedig â phlant oedd wedi cael eu hatal o'r ysgol ar yr adeg honno. **Gofynnodd** y Pwyllgor am ddadansoddiad pellach fyddai'n dangos sut yr oedd ysgolion yn cofnodi presenoldeb ac yn egluro pa wyliau oedd yn awdurdodedig a pha rai oedd yn anawdurdodedig.<br><br>5. Bu'r aelodau'n trafod graddau a lefelau a chlywsant am y defnydd o bwyntiau cynnydd, oedd yn galluogi dysgwyr i weld a gweithio tuag at eu targedau personol eu hunain, gan leihau'r straen a'r rhwystredigaeth y gallai rhai dysgwyr ei deimlo; fodd bynnag mynegodd y Pwyllgor bryder ynghylch lefelau presenoldeb disgyblion Blwyddyn 11 a **gofynnodd** am y diweddariad ysgrifenedig yr oedd y Cyfarwyddwr Corfforaethol wedi cynnig ei roi i Aelodau'r Pwyllgor, yn dilyn dadansoddiad o'r data presenoldeb ar gyfer disgyblion Blwyddyn 11. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 18 Tachwedd 2024 |

## 60. Diweddariad ar y Flaenraglen Waith

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | <u>Penderfynwyd</u>: Bu'r Pwyllgor yn ystyried a chymeradwyo'r Flaenraglen Waith (FWP) yn Atodiad A, yn amodol ar gynnwys yr eitemau isod, nododd y Daflen Weithredu Monitro Argymhellion yn Atodiad B a nododd yr adroddid am y Flaenraglen Waith fel y'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol. |

| | |
|---|---|
| | Gofynnodd y Pwyllgor am i'r canlynol gael eu cynnwys yn y Flaenraglen Waith:<br><br>i. **Gofynnodd** y Pwyllgor am i Bresenoldeb gael ei gynnwys o fewn cwmpas yr adroddiad ar Ymddygiad a Gwaharddiadau a drefnwyd ar gyfer cyfarfod mis Mawrth er mwyn gweld pa gynnydd a wnaed o ganlyniad i rai o'r mesurau fyddai wedi cael eu gweithredu.<br><br>ii. O ystyried y cyfeiriadau niferus a wnaed yn ystod y cyfarfod at bwysigrwydd cymorth iechyd meddwl a lles i helpu dysgwyr i fynychu'r ysgol a chael addysg, **gofynnodd** y Pwyllgor am i'r pwnc hwn gael ei gynnwys yn y flaenraglen waith i'w ystyried yn y dyfodol. Gofynnodd y Pwyllgor am i gwmpas yr adroddiad hwn gynnwys ffocws cyfannol ar y gefnogaeth iechyd meddwl a lles a ddarperir i ddysgwyr i'w cynorthwyo i fynychu addysg, gan gynnwys gwybodaeth am unrhyw gymorth sydd ar gael gan y Gwasanaethau Cymdeithasol, Meddygon Teulu, y Bwrdd Iechyd a'r Trydydd Sector.<br><br>iii. **Gofynnodd** y Pwyllgor am wahodd cynrychiolwyr o'r Bwrdd Iechyd a'r Cyngor Ieuenctid i'r cyfarfodydd perthnasol uchod. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 18 Tachwedd 2024 |

## 61. Materion Brys

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Dim. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 18 Tachwedd 2024 |

Er mwyn gweld rhagor o'r ddadl a ddigwyddodd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon.

Daeth y cyfarfod i ben am 13:40.

.